# Cwyn Diogelu Data

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cymryd ei rwymedigaethau o dan GDPR 2018 y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR) a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) o ddifrif. Fodd bynnag, os ydych chi'n anhapus neu'n anfodlon â'n gwasanaeth gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i ddweud wrthym.

Gallwch gwyno am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin os:

- nid ydym wedi ymateb yn briodol i'ch cais am eich gwybodaeth bersonol;
- nid yw eich gwybodaeth wedi'i chadw'n ddiogel;
- rydym yn dal gwybodaeth anghywir amdanoch chi;
- rydym wedi datgelu gwybodaeth amdanoch chi;
- mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw am gyfnod hirach nag sydd ei angen;
- rydym wedi casglu gwybodaeth am un rheswm ac yn ei defnyddio at rywbeth arall; neu
- nid ydym wedi cynnal unrhyw rai o'ch hawliau diogelu data.

Gellir gwneud cwynion yn ysgrifenedig, naill ai drwy lythyr neu e-bost, neu ar lafar. Noder, er nad yw'n orfodol cwblhau'r ffurflen sydd ynghlwm, bydd ei defnydd yn ein helpu i gael y data angenrheidiol i brosesu eich cais. Os gwnewch eich cais ar lafar, rydym yn argymell eich bod yn ei ddilyn yn ysgrifenedig.

Noder y gallwn ofyn am ragor o wybodaeth i gadarnhau pwy ydych chi. Mae'r cyfnod ar gyfer ymateb i'ch cais yn dechrau pan fyddwn yn derbyn y wybodaeth ychwanegol.

Wrth wneud cwyn, cofiwch gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Eich enw a'ch manylion cyswllt;
- Unrhyw wybodaeth y gallwn ei defnyddio i'ch adnabod neu i'ch gwahaniaethu chi oddi wrth bobl eraill sydd â'r un enw (e.e. rhif staff, rhif myfyriwr);
- Unrhyw fanylion neu ddyddiadau perthnasol a fydd yn ein helpu i ymchwilio i'ch cwyn.

Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn un mis calendr. Os gofynnir am ragor o wybodaeth gennych mewn perthynas â chadarnhau pwy ydych chi, bydd yr amser yn dechrau o'r adeg y byddwn yn derbyn y wybodaeth ychwanegol. Pan fo'r gŵyn yn gymhleth ac na allwn ymateb o fewn un mis calendr, darperir diweddariadau rheolaidd a dyddiad targed.

**Ceisiadau sy'n cael eu gwneud ar ran eraill**

Gall unigolyn wneud cwynion ar ran rhywun arall. Mewn achosion o'r fath bydd angen i ni fod yn fodlon bod gan y trydydd parti sy'n gwneud y cais hawl i weithredu ar ran yr unigolyn. Bydd gofyn i'r trydydd parti ddarparu tystiolaeth o'r hawl hon. Gall tystiolaeth gynnwys awdurdod ysgrifenedig gan y gwrthrych data neu atwrneiaeth. Noder y gallai fod angen cadarnhad o bwy ydych chi o hyd gan y gwrthrych data.

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp drwy e-bost yn data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk neu dros y ffôn ar 0330 818 9014.

# Ffurflen Gwyno Diogelu Data Cwsmeriaid

| **Eich Manylion** | |
|---|---|
| Teitl | |
| Enw Cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Cyfeiriad Post | |
| E-bost | |
| Rhif Ffôn | |
| Cwrs a Thiwtor (os yn briodol) | |
| Bydd Grŵp Colegau NPTC yn trin eich gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i brosesu eich cwyn. Ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd partïon, bydd yn cael ei chadw'n ddiogel, ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall ac ni fydd yn cael ei chadw am gyfnod hirach nag sy'n ofynnol. | |

**Sylwer:** Os ydych chi'n gweithredu ar ran yr unigolyn rhaid i chi gael ei awdurdod ysgrifenedig wedi'i lofnodi i wneud hynny a rhaid i chi amgáu'r awdurdod hwnnw gyda'ch cais. Llenwch yr adran hon gyda'ch manylion a chyflwynwch y cais gyda'r profion adnabod priodol.

| **Manylion y Trydydd Parti sy'n gofyn am y wybodaeth** | |
|---|---|
| Enw Llawn: | |
| Sefydliad (os yn berthnasol) | |
| Cyfeiriad | |
| Cyfeiriad E-bost | |
| Rhif Ffôn: | |

| **Disgrifiwch eich perthynas â'r Gwrthrych Data sy'n eich arwain i wneud y cais hwn am wybodaeth ar ei ran.** |
| --- |
| |

Mae profion adnabod yn cynnwys eich cerdyn adnabod Coleg, copi o'ch pasbort, trwydded yrru neu dystysgrif geni.

Mae tystiolaeth o ganiatâd yr unigolyn i ddatgelu i drydydd parti yn cynnwys llythyr awdurdod wedi'i lofnodi, atwrneiaeth.

| **Manylion Eich Cwyn** |
| --- |
| Rhowch fanylion eich cwyn ac unrhyw dystiolaeth yr hoffech i ni ei hystyried. |

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi at y Swyddog Diogelu Data, Grŵp Colegau NPTC, Coleg Castell-nedd, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd SA10 7RF neu drwy e-bost i data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk.